# 6. RHAN GYNTAF Y WLEDD

**Darllen:** Marc 14: 17-21

Erbyn yr hwyr y diwrnod canlynol, yr oedd popeth, i bob golwg, yn barod ar gyfer cadw'r Pasg. Gosodwyd y bwrdd a pharatowyd y bwyd ar gyfer y wledd, ond nid awyrgylch gwledd a gafwyd yn yr ystafell. Roedd hi'n amlwg nad oedd y Deuddeg yn barod ar y naill law i ddathlu gwaredigaeth Duw o'i bobl yn y gorffennol, nac i eistedd wrth y bwrdd arbennig hwn gyda'r Meistr ar y llaw arall. Ers i Iago ac Ioan ofyn am y prif seddau yn y Deyrnas roedd y disgyblion wedi parhau i anghytuno a chweryla yn waeth na'r arfer ynglw'n â phwy ohonynt oedd y mwyaf, a phob un yn gwybod ei fod ef ei hun yn bwysicach ac yn well na'r lleill, gan haeddu'r lle gorau wrth ochr yr Arglwydd mewn gogoniant. Nid oedd neb yn barod i ddod yn ail i'r lleill; neb yn barod i ymofyn du'r i olchi traed ei frodyr. Gwaith israddol oedd golchi traed, gwaith caethweision! '*Pam ddylwn i? Rydw i gystal â'r lleill, os nad yn well!*' Aethant felly i'r wledd gyda llwch ar eu traed a meddyliau cas yn eu calonnau. Wrth gadw'r Pasg, gellir bwyta rhan gyntaf swper y Pasg wrth eistedd neu sefyll mewn unrhyw le yn yr ystafell; ond rhaid eistedd wrth y bwrdd ar gyfer yr ail ran, rhan sy'n fwy ffurfiol.

Mae'n debyg mai bwrdd 'tricluniwm' oedd yn yr ystafell – siâp 'E' heb y darn canol. Eisteddodd Iesu, fel y gwesteiwr yn yr ail sedd o'r dde wrth y darn canol; Ioan ar ei law dde, fel dyn-llaw-dde, i wneud yn ôl ewyllys y gwesteiwr, a Jwdas yn y sedd anrhydeddus ar y chwith. Mae'n bosibl iawn mai eistedd yn y lle olaf, nesaf at y drws, yr oedd Pedr, yn pwdu efallai, am na chafodd eistedd yn lle Jwdas neu Ioan.

Amser o lawenydd yw'r Pasg i Iddewon, gyda llawer o chwerthin yn y rhan gyntaf y dathlu. Ond, ni chafwyd yr un arwydd o lawenydd yma heno, dim ond distawrwydd llethol, annymunol. Dicter a reolodd y lle, dicter sy'n medru arwain at gasineb a gwaeth. Nid oedd lle yn eu calonnau i neb arall, hyd yn oed yr Arglwydd. Eu 'hunan' yn unig oedd yn cyfrif - teimlad cyfarwydd i ni, efallai.

**Gweddi:**

*Drugarocaf Arglwydd, dy gariad di sy'n ein cymell i ddod i mewn.*
*Roedd ein dwylo'n frwnt, ein calonnau heb eu paratoi;*
*Nid oeddem yn deilwng hyd yn oed i fwyta'r briwsion dan dy fwrdd.*

*Ond tydi, Arglwydd, yw Duw ein hiachawdwriaeth,*
*yn rhannu dy fara gyda phechaduriaid.*
*Glanha ni, felly, a phortha ni gyda gwerthfawr gorff a gwaed dy Fab,*
*fel y caiff fyw ynom ni a ninnau ynddo yntau,*
*ac y cawn, gyda holl gwmni Crist,*
*eistedd a bwyta yn dy deyrnas. Amen.*

**Darllen:** Ioan 13: 1-15

Eisteddodd pob disgybl wrth y bwrdd, â'u meddyliau'n troi o gwmpas eu byd bach eu hunain. Rhaid bod pob un ohonynt yn ymwybodol o'r ffaith bod ei draed a thraed ei frodyr yn frwnt ond neb yn barod i'w golchi. Tybed na wnaeth neb ystyried bod traed y Meistr hefyd yn frwnt? Byddai'n amhosibl i neb olchi ei draed ef heb olchi traed y lleill hefyd.

Cododd Iesu ar ei draed gan dynnu ei wisg uchaf a gosod lliain o gwmpas ei ganol. Gwisgodd fel caethwas, ac fel caethwas fe gymerodd fasn o ddu'r a mynd o un i un i olchi traed pob un o'r Deuddeg yn eu tro. *'Fe'i gwacaodd ei hun, gan gymryd ffurf caethwas a dyfod ar wedd ddynol. O'i gael ar ddull dyn, fe'i darostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angau, ie, angau ar groes*' (Philipiaid 2: 6-8). Golchodd y llwch oddi ar eu traed a'r balchder o'u calonnau; pob un ohonynt ac eithrio Jwdas. Llwyddodd Iesu i olchi traed Jwdas yn lân ond ni lwyddodd i feddalu'r caledi yn ei galon. Simon Pedr oedd yr olaf. Protestiodd yn gryf yn erbyn bwriad ei Feistr: '*Ni chei olchi fy nhraed i byth!*' Ef oedd yn gwybod orau! Ond, atebodd Iesu, '*Os na chaf dy olchi di, nid oes lle iti gyda mi.*' Newidiodd Pedr ei gân ar unwaith: *'Arglwydd, nid fy nhraed yn unig, ond golch fy nwylo a'm pen hefyd.'* Hyd yn oed wrth iddo geisio edifarhau cafodd ei reoli gan ei hunangarwch. Onid, '*Ymddirieda ynof*,' yw ystyr ateb Iesu? Ar ôl iddo roi ei wisg arno drachefn, sef arwydd o statws dyn rhydd, ac eistedd, gofynnodd iddynt, '*A ydych yn deall beth yr wyf wedi ei wneud i chwi?... Yr wyf wedi rhoi esiampl i chwi; yr ydych chwithau i wneud fel yr wyf fi wedi ei wneud i chwi.*' Ni ddefnyddiodd '*os gwelwch yn dda'* ar ddiwedd ei frawddeg. Nid gobeithio sydd yma ond gorchymyn.

**Gweddi:**

*Dduw graslon,*
*gwregysodd dy Fab, Iesu Grist, ei hun â thywel*
*a golchi traed ei ddisgyblion.*
*Dyro i ni ewyllys i fod yn weision i eraill*
*fel yr oedd Ef i bawb,*
*yr hwn a roddodd ei fywyd a marw drosom,*
*ac eto y mae'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân,*
*yn un Duw, yn awr ac yn dragywydd. Amen.*